

Canllawiau ar gyfer
fferyllfeydd
cofrestedig sy'n
darparu
gwasanaethau
fferyllol o bell, gan
gynnwys ar y
rhynggrwyd

Ebrill 2019

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heb gynnwys y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid nodi mai eiddo Cyngor Fferyllol Cymru yw'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Pan fo deunydd o drydydd parti yn cael ei ddefnyddio rhaid cael caniatâd perchennog hawlfraint hwnnw hefyd.

Cysylltwch â ni yn communications@pharmacyregulation.org os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

(h) Cyngor Fferyllol Cyffredinol Ebrill 2019

Cynnwys

Ynghylch y canllawiau hyn	4
Cyflwyniad	7
Egwyddor 1	8
Egwyddor 2	12
Egwyddor 3	13
Egwyddor 4	16
Egwyddor 5	20
Ffynonellau gwybodaeth defnyddiol eraill.....	22

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn rhan o'n rôl, rydym yn gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa.

Ynghylch y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn egluro'r hyn y dylai perchnogion fferyllfeydd ei ystyried cyn penderfynu a all unrhyw ran o'u gwasanaeth fferyllol gael ei darparu'n ddiogel ac yn effeithiol o bell (gan gynnwys ar y rhynggrwyd), yn hytrach nag yn y ffordd wyneb-yn-wyneb draddodiadol.

Fel perchennog fferyllfa, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod y canllawiau hyn yn cael eu dilyn. Dylai pawb yn y tîm fferyllol, gan gynnwys rheolwyr â chyfrifoldeb wedi ei ddirprwyo a'r fferyllfeydd â chyfrifoldeb, ddeall y canllawiau a bod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd arnynt i'w dilyn. Os yw'r fferyllfa gofrestrdedig yn eiddo i 'gorff corfforaethol' (cwmni neu sefydliad GIG, er enghraifft) dylech sicrhau bod y fferyllfeydd goruchwyliol yn deall y dylid dilyn y canllawiau.

Dylech ddarllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r **safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig**, y mae'n rhaid i berchnogion fferyllfeydd eu cyrraedd, a'n **Fframwaith gwneud penderfyniadau arolygu**. Diben y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig yw creu a chynnal yrr amgylchedd cywir, yn sefydliadol ac yn ffisegol, ar gyfer ymarfer fferyllol diogel ac effeithiol.

Mae ein safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol yn disgrifio sut mae gofal effeithiol a diogel yn cael ei ddarparu drwy



broffesiynoldeb sydd 'â phobl yn ganolog iddo'. Felly, rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r safonau hynny a hefyd y canllawiau sydd wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan i helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol i gymhwyso ein safonau a chyflawni'r gofynion proffesiynol sydd arnynt.

Rhaid i berchnogion fferyllfeydd hefyd sicrhau eu bod yn cadw at bob deddf sydd ar waith ar gyfer fferyllwyr. Mae'r rhain yn cynnwys y ddeddf ynghylch cyflenwi a hysbysebu meddyginiaethau, gwybodaeth newydd i ddefnyddwyr sy'n prynu ar-lein, a diogelu data.

Mae dilyn y canllawiau hyn yn rhan bwysig o'r gwaith o sicrhau eich bod yn cyrraedd ein safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig. Mae'r rhain wedi eu rhannu'n bump egwyddor, yr ydyn ni'n cyfeirio atynt gydol y canllawiau hyn. Rydym yn disgwyl i'r canllawiau hyn gael eu dilyn felly.

Gallai peidio â dilyn y canllawiau hyn, neu beidio â gweithredu'n briodol i gyflawni deilliannau ein safonau, olygu eich bod yn methu â chyrraedd un neu ragor o'r safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig. Gallai hyn arwain at gamau gorfodi yn eich erbyn.

Wrth ddefnyddio'r gair 'staff' yn y ddogfen hon, mae hyn yn cynnwys:

- cyflogeion (aelodau cofrestredig a rhai nad ydynt yn gofrestrdig)
- gweithwyr contract ac asiantaethau, ac
- unrhyw drydydd parti sy'n helpu'r fferyllfa i ddarparu unrhyw ran o wasanaeth y

fferyllfa, ac yn delio, ar ran perchennog y fferyllfa, â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol

Yn y ddogfen hon, ystyr y gair 'chi' yw'r perchennog fferyllfa.

Mewn rhai amgylchiadau prin (yn sgil marwolaeth neu fethdaliad, er enghraifft), gall cynrychiolydd gymryd rôl y perchennog fferyllfa. Yn yr achosion hyn, y cynrychiolydd fydd â'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cyrraedd.

Mae enghreifftiau o'r gwasanaethau fferyllol y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol iddynt yn cynnwys:

1. gwasanaeth fferyllol lle nad yw presgripsiynau'n cael eu cyflwyno'n uniongyrchol gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ond yn hytrach yn cael eu casglu gan staff fferyllfa, neu eu derbyn drwy'r post neu'n electronig
2. gwasanaeth dosbarthu o'r fferyllfa gofrestrdig i bobl yn eu cartref, cartref gofal neu gartref nyrsio
3. gwasanaeth casglu a dosbarthu
4. gwasanaeth 'clicio a chasglu'
5. gwasanaeth archebu drwy'r post o fferyllfa gofrestrdig

Gwasanaeth fferyllol drwy'r rhyngwyd, gan gynnwys un sy'n gysylltiedig â gwasanaeth presgripsiynu ar-lein, boed y gwasanaeth presgripsiynu'n eiddo i chi ac

6. wedi ei weithredu gennych chi neu gan fusnes trydydd parti
7. Gwasanaeth fferyllol 'hyb ac adain' – lle mae meddyginiaethau'n cael eu paratoi, eu rhoi at ei gilydd, eu dosbarthu a'u labelu ar gyfer unigolion yn erbyn presgripsiynau mewn fferyllfa gofrestredig sy'n gweithredu fel hyb canolog

Mathau o wasanaethau fferyllol

Casglu a dosbarthu

Diffinnir gwasanaeth casglu a dosbarthu yn Rheol 248 Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012.

Clicio a chasglu

Mae hyn fel arfer yn cyfeirio at wasanaeth lle mae cwsmer yn gallu prynu neu archebu nwyddau o wefan siop a'u casglu o gangen leol.

Hyb ac adain

Mae'r meddyginiaethau a ddosberthir yn cael eu cyflenwi gan yr 'hyb' i'r 'adenydd' neu eu dosbarthu'n uniongyrchol i gleifion yn eu cartrefi neu gartrefi gofal. Gall yr 'adenydd' fod yn fferyllfeydd cofrestredig eraill, neu'n lleoliadau anghofrestredig lle mae cleifion yn gollwng eu presgripsiynau ac yn casglu eu meddyginiaethau.

Cyflwyniad

Yn sgil newidiadau cymdeithasol a datblygiadau technegol, mae ffyrdd gwahanol o ddarparu gwasanaethau fferyllol yn dod yn fwyfwy cyffredin. Bydd gwasanaethau fferyllol yn parhau i addasu a newid, gan ddod â chyfleoedd i ddarparu gwasanaethau fferyllol a gwasanaethau gofal iechyd mewn ffyrdd newydd. Rydym yn cefnogi ac yn annog arloesedd cyn belled ag y bo'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn derbyn gofal effeithiol sydd â phobl yn ganolog iddo.

Ond mae gan y broses o ddarparu gwasanaethau fferyllol o bell, yn enwedig ar-lein, risgiau penodol sydd angen eu rheoli. Rydym am i'r canllawiau hyn fod yn gefn i'r gwaith o ddarparu meddyginiaethau, teclynnau meddygol a gofal fferyllol yn briodol mewn ffordd sy'n cadw at y gyfraith ac yn cyrraedd ein safonau.

Yr un gyfraith sydd ar waith pan fo gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu mewn ffordd wyneb-yn-wyneb draddodiadol, neu o bell, neu ar y rhyngwyd. Er enghraifft: os ydych yn darparu gwasanaeth dosbarthu, rhaid i feddyginiaeth presgripsiwn yn unig (POM) gael ei throsglwyddo i asiant dosbarthu fferyllfa (P) mewn fferyllfa gofrestrredig dan oruchwyliaeth fferylllydd.

Os ydych yn gwerthu neu'n cyflenwi meddyginiaethau i bobl mewn gwledydd eraill rhaid i chi gadw at unrhyw gyfreithiau eraill sydd ar waith. Mae gan wahanol wledydd wahanol gyfyngiadau ar waith ac mae rhai'n gwahardd unrhyw feddyginiaethau o gwbl rhag cael eu cyflenwi ar-lein. Chi sydd â'r cyfrifoldeb i

sicrhau bod gan y feddyginiaeth rydych chi'n ei chyflenwi yr awdurdodaeth fasnachol sydd ei hangen ar gyfer y wlad rydych chi'n ei hanfon¹.

Os ydych yn gwerthu neu gyflenwi meddyginiaethau i'w defnyddio gydag anifeiliaid, mae'r gyfraith sydd ar waith – a'r eithriadau sy'n caniatáu hyn – wedi eu nodi yn rhywle arall². Mae'r **Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD)** yn trwyddedu a chymeradwyo meddyginiaethau anifeiliaid ac yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer cyflenwi meddyginiaethau anifeiliaid. Mae'r VMD hefyd yn gweithredu **cynllun achredu gwirfoddol gwerthu ar y rhyngwyd (AIRS)** ar gyfer gwerthwyr cynnyrch meddygol milfeddygol ar-lein. Nod y cynllun yw rhoi sicrwydd i'r cyhoedd eu bod yn prynu cynnyrch meddygol milfeddygol gan werthwr yn y DU sydd ag enw da.

Mae Rheoliadau'r GIG yn Lloegr³ yn cynnwys nifer o sefyllfaoedd penodol sy'n caniatáu i fferyllfeydd gwerthu o bell agor a gweithredu. Yn yr Alban⁴ ac yng Nghymru⁵ mae'r rheoliadau'n wahanol. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwahardd fferyllfeydd sydd eisoes ar agor rhag darparu gwasanaethau o bell neu ar y rhyngwyd.

¹ Rheol 28 Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol (Diwygiad) 2013

² Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013

³ Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol a Fferyllol Lleol) 2013

⁴ Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Yr Alban) 2009

⁵ Deddf GIG (Cymru) 2006

Canllawiau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau fferyllol o bell, gan gynnwys ar y rhyngwrwyd

Mae'r safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig wedi eu rhannu'n bump egwyddor, ac mae'r canllawiau hyn yn dilyn trefn yr egwyddorion hynny.

Egwyddor 1: Mae'r trefniadau llywodraethu'n amddiffyn iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd

1.1 Asesu risgiau

Yn rhinwedd ei natur, mae risgiau penodol i ddarparu gwasanaethau fferyllol o bell, yn enwedig ar-lein.

Bydd asesiadau risg yn eich helpu i adnabod a rheoli risgiau. Mae'n ffordd ofalus a manwl o ystyried y niwed y gallai eich gwaith ei greu i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, a'r hyn sydd angen i chi ei wneud i gadw lefel y risg mor isel ag sy'n ymarferol bosibl.

Gall asesiadau risg gael eu gwneud ar lefel gorfforaethol, ond bydd angen iddynt ystyried amgylchiadau unigol pob fferyllfa. Mae hyn yn cynnwys y staff sydd yn gweithio ynddi; gweithgareddau trydydd partion, asiantau neu gontractwyr; a phob rhan unigol o'r gwasanaeth fferyllol y bwriedwch ei gynnig. Dylai'r gwasanaeth cyfan fod yn rhan ohono.

Dylech adolygu eich asesiad risg yn gyson a phob tro y bydd amgylchiadau'n newid – pan fyddwch yn gwneud newidiadau busnes neu weithredol, er enghraifft (gweler hefyd adran 1.2).

I gyrraedd ein safonau dan Egwyddor 1, rydyn ni'n disgwyl i chi, fel perchennog fferyllfa, sicrhau:

1. eich bod yn casglu tystiolaeth am y risgiau i bob gwasanaeth, meddyginiaeth a theclyn meddygol unigol a ddarparwch o bell, gan gynnwys ar y rhyngwrwyd, cyn i chi ddechrau darparu'r gwasanaeth
2. bod eich asesiad risg yn cynnwys ystyriaeth i'r canlynol:
 - y risgiau rydych chi wedi eu hadnabod a sut y cân nhw eu rheoli
 - sut mae staff yn sôn wrth bobl am y gwasanaethau fferyllol y byddan nhw'n eu derbyn, a sut maen nhw'n cael eu cydsyniad
 - sut mae staff yn cyfathrebu rhwng gwahanol leoliadau
 - sut mae meddyginiaethau'n cael eu cyflenwi, gan gynnwys cwmsela a dosbarthu (gweler adran 4)

- y capasiti sydd gan eich busnes i ddarparu'r gwasanaethau arfaethedig
 - cynlluniau parhad busnes, gan gynnwys gwefan, diogelwch data, ac offer
 - pa gofnodion y byddwch yn eu cadw, yn dibynnu ar natur y gwasanaethau a ddarparwch
 - ymddygiad staff neu bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol
 - gwahanol dechnolegau ar waith gyda'i gilydd, a
 - newidiadau i nifer neu raddfa eich gwasanaethau
3. bod eich staff yn gwybod canlyniadau unrhyw asesiad risg ac yn cyfrannu ato'n briodol
 4. bod unrhyw gofrestr risgiau a gadwch yn cael ei diweddarau'n gyson, a bod unrhyw gamau gweithredu'n cael eu cofnodi
 5. os yw rhannau o'ch gwasanaeth fferyllol yn gyfrifoldeb ar wahanol fferyllfeydd a staff - neu'n gyfrifoldeb ar drydydd parti, asiant neu gontractwr - eich bod wedi ystyried sut mae'r systemau a ddefnyddiwch i ddarparu eich gwasanaeth fferyllol yn gweithio gyda'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys systemau TG sy'n cyfnewid gwybodaeth rhwng gwahanol leoliadau. Dylech hefyd ystyried sut rydych chi'n monitro cywirdeb y systemau hyn a rheoli unrhyw fethiannau posibl.
 6. nad ydych yn gweithio gyda darparwyr ar-lein sy'n ceisio osgoi'r oruchwyliaeth reoleiddio sydd ar waith yn y DU i sicrhau

diogelwch cleifion yn y system gofal iechyd drwyddi draw. Gallai gweithio gyda presgripsiynwyr nad ydyn nhw wedi eu cofrestru'n briodol gyda'r rheoleiddiwr perthnasol yn y DU, a gyda gwasanaethau presgripsiynu nad ydyn nhw yn y DU, greu risgiau ychwanegol sylweddol i gleifion a'r cyhoedd. Os yw'ch gwasanaeth yn gweithio'n gyfreithlon gyda phresgripsiynwyr neu wasanaethau presgripsiynu o'r tu allan i'r DU, dylech sicrhau:

- eich bod yn rheoli'n llwyddiannus y risgiau ychwanegol y gallai hyn eu creu
 - bod gennych yswiriant indemniad digonol ar waith ar gyfer:
 - eich gwasanaeth sy'n defnyddio presgripsiynwyr neu wasanaethau presgripsiynu y tu allan i'r DU, a
 - staff fferyllol sy'n cyflenwi meddyginiaethau yn erbyn presgripsiynau wedi eu paratoi gan y presgripsiynwyr neu'r gwasanaethau presgripsiynu hyn
 - bod y presgripsiynydd wedi ei gofrestru yn y wlad lle mae'r presgripsiwn wedi ei baratoi ac yn gallu cyhoeddi presgripsiynau'n gyfreithlon ar-lein ar gyfer pobl yn y DU
 - bod y presgripsiynydd yn gweithio o fewn canllawiau presgripsiynu cenedlaethol ar gyfer y DU
7. Rydym yn disgwyl i chi sicrhau bod unrhyw drefniadau trawsffiniol yn nyluniad eich

gwasanaeth yn gyfreithlon dan gyfraith y DU.

1.2 Archwiliadau rheolaidd

Rhaid adolygu a monitro diogelwch ac ansawdd gwasanaethau fferyllol yn rheolaidd. Dylech gynnal archwiliad rheolaidd, gyda chyfnod rhyngddynt y gallwch ddangos ei fod yn addas ar gyfer eich gwasanaethau fferyllol chi. Dylai'r archwiliad fod yn rhan o'r dystiolaeth sy'n rhoi sicrwydd i bobl sy'n defnyddio eich gwasanaethau bod eich fferyllfa'n parhau i ddarparu gwasanaethau fferyllol diogel. Gall archwiliadau rheolaidd fod ar lefel gorfforaethol ond rhaid iddynt fod yn berthnasol i amgylchiadau fferyllfeydd unigol.

Os byddwch yn adnabod problemau posibl, dylech weithredu i'w cywiro. Gallai hyn arwain at gynnal 'adolygiad ymatebol' gennych. Dylech gofnodi'r adolygiad ymatebol a nodi'n glir pryd bydd angen asesiad risg newydd:

I gyrraedd ein safonau dan Egwyddor 1, rydyn ni'n disgwyl i chi, fel perchennog fferyllfa, sicrhau:

1. bod eich archwiliad rheolaidd yn cynnwys:

- lefelau staff, a'r hyfforddiant a'r sgiliau o fewn y tîm ac unrhyw hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen fel bod gan pob aelod staff y sgiliau a'r galluoedd sy'n briodol ar gyfer y tasgau maen nhw'n eu cyflawni
- priodoldeb eich dulliau cyfathrebu gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, a rhwng staff a darparwyr gofal iechyd eraill, gan gynnwys rhwng hybiau ac adenydd a gyda manau casglu a dosbarthu

- priodoldeb systemau a phrosesau derbyn presgripsiynau, gan gynnwys y gwasanaeth presgripsiynau electronig (EPS)
 - bod cofnodion yn cael eu gwneud o benderfyniadau i werthu neu wrthod gwerthu
 - diogelwch systemau a phrosesau dosbarthu i bobl sy'n derbyn gofal
 - cywirdeb gwybodaeth am eich gwasanaethau fferyllol ar eich gwefan
 - sut i gadw at eich polisi diogelwch gwybodaeth, at Safon Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCI DSS) a'r gyfraith diogelu data
 - adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol
 - pryderon neu gwynion a dderbyniwch
 - gweithgareddau trydydd partion, asiantau neu contractwyr
2. eich bod yn dangos sut mae'ch staff wedi bod ynghlwm wrth yr archwiliad
3. bod adolygiad ymatebol yn cael ei gynnal pan fo un neu rai o'r canlynol yn digwydd:
- eich bod yn canfod unrhyw broblemau posibl yn ystod eich archwiliad rheolaidd
 - newid yn y gyfraith yn effeithio ar unrhyw ran o'ch gwasanaeth fferyllol
 - newid sylweddol i unrhyw ran o'ch gwasanaeth fferyllol, megis cynnydd yn y nifer o bobl y darparwch wasanaethau iddynt neu gynnydd yn yr ystod gwasanaethau y bwriadwch eu

darparu; neu newid mewn trydydd parti, asiant neu gontractwr a ddefnyddiwr

- torri ar ddiogelwch data
 - newid yn y dechnoleg a ddefnyddiwr
 - pryderon neu adborth negyddol yn cael ei dderbyn wrth bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol
 - adolygiad ar bethau aeth bron o chwith neu gamgymeriadau logio yn amlygu gofid ynghylch gweithgaredd
4. bod eich arferion diogelu data'n cael eu harchwilio gan arbenigwyr annibynnol, yn dibynnu ar y math o wasanaeth a ddarparwch

1.3 Atebolrwydd - staff

Pan fo gwahanol rannau o wasanaeth fferyllol yn digwydd mewn lleoliadau gwahanol (megis gwasanaeth 'hyb ac adain' neu 'glicio a chasglu') rhaid i chi fod yn glir ynghylch pa fferylllydd sy'n atebol ac yn gyfrifol am bob rhan o'r gwasanaeth, a pha dechnegwyr fferyllol a staff eraill sydd ynghlwm wrth y gwaith.

Pan na fo meddyginiaethau'n cael eu rhoi'n uniongyrchol i'r person neu ei gynrychiolydd yn y fferyllfa gofrestredig, ond yn hytrach yn cael eu dosbarthu gan aelod staff neu asiant i gartref neu weithle person, efallai y bydd mwy o risg yr aiff meddyginiaethau ar goll neu eu dosbarthu i'r person anghywir. Rhaid i chi sicrhau bod llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb clir mewn amgylchiadau o'r fath.

Os ydych yn contractio unrhyw ran o'ch gwasanaeth fferyllol i drydydd parti chi sydd yn gyfrifol am ei darparu'n ddiogel ac yn effeithiol.

Dylech weithredu 'diwydrwydd dyladwy' wrth ddethol unrhyw gontractwyr.

1.4 Cadw cofnodion

Rhaid i chi gadw a chynnal cofnodion sy'n briodol at natur y gwasanaethau fferyllol a ddarparwch. Mae hyn yn cynnwys cadw log dyddiol y fferylllydd â chyfrifoldeb.

Pan fo person yn cael cyswllt wyneb-yn-wyneb â staff fferyllol mewn fferyllfa, ni chedwir cofnod gwerthu meddyginiaethau P fel arfer. A phan fo cynnyrch yn anaddas neu'n anniogel, a dim cynnyrch yn cael eu gwerthu, bydd y staff fel arfer yn dweud wrth y person ond ni chedwir cofnod fel arfer.

Pan nad oes cyswllt wyneb-yn-wyneb, dylech ystyried pa wybodaeth y byddwch chi a'ch staff yn ei chofnodi i ddangos bod y gwasanaeth fferyllol a ddarparwch yn ddiogel. Mae'r cofnodion a gadwch yn dystiolaeth bwysig o'r penderfyniadau a wnewch chi a'ch staff. Gallant hefyd helpu ymdrechion i wella gwasanaethau a rheoli ansawdd.

Er bod cyfreithiau meddyginiaethau'n nodi am ba hyd y dylech gadw cofnodion penodol, dylech gadw cofnodion eraill mor hir ag yr ystyriwch chi'n addas, ac y gallwch brofi hynny.

I gyrraedd ein safonau dan Egwyddor 1, rydyn ni'n disgwyl i chi, fel perchennog fferyllfa, sicrhau:

1. bod eich cofnodion yn cynnwys:
 - manylion y staff sy'n atebol ac yn gyfrifol am ddarparu pob rhan o'ch gwasanaeth fferyllol
 - y wybodaeth a'r cyngor a roddwch i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau

fferyllol ynghylch defnyddio meddyginiaethau'n ddiogel

- y prif bwyntiau wrth wraidd eich penderfyniad i werthu neu beidio â gwerthu meddyginiaeth benodol
- cydsyniad i ddefnyddio dull dosbarthu penodol, a dyddiad dosbarthu'r feddyginiaeth
- gwybodaeth am gwynion neu bryderon gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol a'r hyn rydych chi wedi ei wneud i fynd i'r afael â nhw
- cofnodion TG (gweler adran 5)

Egwyddor 2: Mae staff wedi eu hymbweru ac yn gymwys i amddiffyn iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd.

2.1 Staff cymwys sydd wedi eu hyfforddi

Mae'r staff rydych chi'n eu cyflogi, a'r bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw, yn allweddol i ddarparu fferylliaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.

Chi sy'n gyfrifol am greu diwylliant o broffesiynoldeb â phobl yn ganolog iddo o fewn eich fferyllfa. Rhaid i dargedau neu gymelliadau beidio â pheryglu iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd, na chrebwyll proffesiynol staff. Dylai staff fod wedi eu hymbweru i ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol er mwyn ymddwyn er budd gorau pobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau.

Rhaid i chi sicrhau bod eich holl staff wedi eu hyfforddi'n briodol a'u bod yn gymwys i ddarparu meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol proffesiynol eraill yn ddiogel. Mae'r CFC wedi cynhyrchu **canllawiau i sicrhau tîm diogel ac effeithiol**. Mae'r canllawiau'n egluro'r hyn y dylech ei wneud i sicrhau eich bod yn cyrraedd y safonau dan Egwyddor 2 y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig.

I gyrraedd ein safonau dan Egwyddor 2, rydyn ni'n disgwyl i chi, fel perchennog fferyllfa, sicrhau:

1. eich bod yn darparu, pan yn briodol, hyfforddiant ychwanegol yn y meysydd canlynol:
 - rheoli diogelwch gwybodaeth – sut mae data yn cael ei ddiogelu; a seiberddiogelwch

- sgiliau cyfathrebu er cymorth i staff wrth reoli cyfathrebiadau nad ydyn nhw'n rhai wyneb-yn-wyneb gyda defnyddwyr gwasanaeth a phresgripsiynwyr (mae rhagor o wybodaeth am hyfforddiant cyfathrebu yn 'Ffynonellau gwybodaeth defnyddiol eraill' ar ddiwedd y ddogfen hon)
- defnyddio offer arbenigol a thechnoleg newydd

Egwyddor 3: Mae amgylchedd a chyflwr y lleoliad y darperir gwasanaethau fferyllol ynddynt, ac unrhyw leoliadau cysylltiol, yn amddiffyn iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd.

3.1 Eich lleoliad

Rhaid i chi sicrhau bod eich fferyllfa a'r lleoliad a ddefnyddiwch ar gyfer unrhyw ran o'ch gwasanaeth fferyllol yn cyrraedd y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig.

Rhaid i'ch fferyllfa gofrestrdig fod yn addas at ei diben ac adlewyrchu graddfa'r gwaith a wnewch. Os oes rhai o'ch gweithgareddau'n rhai awtomataidd, rhaid bod digon o le i ddefnyddio systemau dosbarthu awtomataidd yn ddiogel. Rhaid i chi gael ardaloedd addas yn eich fferyllfa i anfon meddyginiaethau'n ddiogel i bobl.

3.2 Eich gwefan

Os ydych yn gwerthu a chyflenwi meddyginiaethau P ar y rhyngwrwyd, rhaid i chi sicrhau mai dim ond ar wefan sy'n gysylltiedig â fferyllfa gofrestrdig y maen nhw'n cael eu harddangos ar werth. Gallai hyn fod dan gytundeb lefel gwasanaeth neu drefniant o fath gwahanol. Gall y cyhoedd gyrchu'r wefan yn uniongyrchol neu drwy wefan trydydd parti.

Dylai'ch gwefan fod yn ddiogel, a dilyn canllawiau diogelu gwybodaeth a'r gyfraith diogelu data. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fyddwch yn gofyn i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol i ddarparu manylion personol. Dylech sicrhau bod eich gwefan yn defnyddio dulliau diogel o gasglu, defnyddio a

chadw manylion defnyddwyr a chyswllt diogel i brosesu taliadau gyda cherdyn, e.e. dolen ddiogel sy'n cyrraedd Safon Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu (PCI DSS). Mae rhagor o wybodaeth ynghylch defnyddio a chadw data ar **wefan yr ICO**.

I gyrraedd y safonau dan Egwyddor 3, mae disgwyl i chi, fel perchennog fferyllfa:

1. Sicrhau bod eich gwefan yn eglur, yn gywir ac yn cael ei diweddarau'n gyson. Ni ddylai fod yn gamarweiniol mewn unrhyw ffordd. Gall eich gwefan gynnwys gwybodaeth am feddyginiaethau, cyngor ar iechyd a dolenni at ffynonellau eraill o wybodaeth megis gwasanaethau gofal iechyd perthnasol a rheoleiddwyr eraill. Dylai eich gwefan fod yn glir ac ni ddylai gamarwain defnyddwyr gwasanaethau fferyllol ynghylch hunaniaeth neu leoliad fferyllfeydd sy'n darparu eich gwasanaethau fferyllol. Mae hyn yn cynnwys hunaniaeth a lleoliad unrhyw wasanaeth presgripsiynu ar-lein.
2. Sicrhau bod unrhyw wasanaeth y mae eich gwefan yn ei chynnig, neu a gyrhaeddir drwy ddilyn dolen allanol, yn un dilys. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wasanaeth presgripsiynu ar-lein. Rhaid i fusnesau rydych chi'n dolennu atyn nhw fod wedi eu cofrestru gyda'r rheoleiddiwr perthnasol, megis y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC), Healthcare Improvement Scotland (HIS) neu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a chyrraedd y safonau a gofynion rheoleiddiol cenedlaethol perthnasol.
3. Disgwyliwn i chi allu dangos sut rydych chi wedi sicrhau bod pob presgripsiynydd,

boed yn feddygol neu'n anfeddygol, yn dilyn y canllawiau presgripsiynu, ymgynghori ac asesu o bell. (Mae rhagor o wybodaeth am presgripsiynau yn 'Ffynonellau gwybodaeth defnyddiol eraill' ar ddiwedd y ddogfen hon)

4. Dan y canllawiau arfer da, rhaid i presgripsiynwyr roi cyffuriau ar bresgripsiwn ddim ond pan fôn:
 - yn meddu ar wybodaeth ddigonol am iechyd y person, ac
 - yn hapus bod y cyffuriau yn ateb anghenion y person
5. Sicrhau bod eich gwefan a gwefan cwmnïau y gweithiwrch gyda nhw wedi eu trefnu fel na bo modd i berson ddewis POM a'i faint cyn ymgynghoriad priodol gyda phresgripsiynydd. Dylid ei gwneud yn glir bod unrhyw benderfyniadau ynghylch triniaeth i'w hystyried ar y cyd rhwng y presgripsiynydd a'r person yn ystod yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, gyda'r presgripsiynydd y bydd y penderfyniad terfynol bob tro.
6. Sicrhau bod eich gwefan yn dangos yn glir:
 - rhif cofrestru'r fferyllfa gyda'r CFC
 - eich enw chi fel perchennog y fferyllfa gofrestredig
 - enw'r fferyllfydd goruchwyliol, os oes un
 - enw a chyfeiriad daearyddol y fferyllfa neu fferyllfeydd cofrestredig sy'n cyflenwi'r meddyginiaethau
 - cyfeiriad e-bost a rhif ffôn y fferyllfa
 - manylion y fferyllfa gofrestredig lle mae meddyginiaethau'n cael eu paratoi, eu

rhoi at ei gilydd, eu labelu a'u dosbarthu ar gyfer cleifion unigol yn erbyn presgripsiynau (os oes unrhyw un neu rai o'r rhain yn digwydd mewn fferyllfa wahanol i'r un sy'n cyflenwi'r meddyginiaethau)

- gwybodaeth ynghylch sut i wirio statws cofrestredig y fferyllfa – a'r fferylllydd goruchwyliol, os oes un
- manylion ynghylch sut gall defnyddwyr gwasanaethau fferyllol roi adborth a mynegi pryderon

Os rhoddir presgripsiwn am feddyginiaethau i berson yn sgil ymgynghoriad ar-lein, rhaid i'ch gwefan hefyd arddangos yn amlwg:

- enw'r presgripsiynydd a chyfeiriad y gwasanaeth presgripsiynu
 - rhif cofrestru'r presgripsiynydd a'r wlad lle mae wedi ei gofrestru
 - a ydy'r presgripsiynydd yn feddyg neu'n bresgripsiynydd annibynnol anfeddygol – yn fferylllydd, yn nyrs neu'n ffisiotherapydd er enghraifft
 - gwybodaeth ynghylch sut i wirio statws cofrestredig y presgripsiynydd
7. Sicrhau eich bod yn ystyried dyluniad a threfn eich gwefan a sicrhau ei bod yn gweithio'n effeithiol a bod gwedd broffesiynol arni.

Logo Swerthu o Bell a logo rhyngrwyd y CFfC

Ym mis Gorffennaf 2015, lansiodd yr MHRA logo cyffredin gorfodol yr UE, a adwaenir erbyn hyn fel y 'Logo Gwerthu o Bell'. Os ydych yn bwriadu gwerthu neu gyflenwi unrhyw feddyginiaethau Rhestr Werthu Gyffredinol (GSL), POM neu P ar y rhyngrwyd rhaid i chi **wneud cais i'r MHRA am y logo** hwn a'i arddangos ar bob tudalen eich gwefan. Bydd angen i chi fodloni'r holl amodau a nodir gan y gyfraith cyn i'r MHRA eich cofrestru ar eu rhestr o werthwyr ar-lein cofrestredig yn y DU a rhoi'r Logo Gwerthu o Bell i chi ei arddangos. (Rhaid i'r Logo Gwerthu o Bell hefyd gael ei arddangos ar wefan gwerthwyr meddyginiaethau GSL nad ydyn nhw'n fferyllwyr.)

Gallwch hefyd wneud cais i ddefnyddio **logo Rhyngrwyd gwirfoddol y CFfC** ar eich gwefan. Mae'r logo'n dolennu'n uniongyrchol at eich cofnod ar gofrestr y CFfC. Rhaid i chi wneud cais am, a derbyn, logo gwerthu o bell yr MHRA cyn i chi allu derbyn logo rhyngrwyd gwirfoddol y CFfC. Dim ond ar eich gwefan chi'ch hun y gellir defnyddio logo Rhyngrwyd y CFfC. Rhaid i chi beidio â chaniatáu iddo gael ei ddefnyddio gan wefannau unrhyw drydydd, presgripsiynu neu eraill.



Logo gwerthu o bell



Logo Rhyngrwyd gwirfoddol y CFfC

Egwyddor 4: Mae'r ffordd y mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu, yn cynnwys y ffordd y rheolir meddyginiaethau a theclynnau meddygol, yn amddiffyn iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd.

4.1 Tryloywder a dewis

Mae gan bobl sy'n derbyn gofal hawl i wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal a'u meddyginiaethau, a'r gwasanaethau maen nhw'n dymuno'u derbyn. Mae hyn yn cynnwys gallu dewis o ble maen nhw am i'w meddyginiaethau gael eu cyflenwi. Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol roi'r wybodaeth sydd ei hangen i alluogi pobl wneud dewis call ynghylch eu meddyginiaethau a'r gwasanaethau fferyllol maen nhw'n eu defnyddio.

Gall eich gwasanaeth fferyllol fod yn gysylltiedig â gwasanaeth presgripsiynau meddygol neu anfeddygol. Efallai y bydd y gwasanaeth presgripsiynu yn:

- un lle rydych chi'n archebu a chasglu presgripsiynau o'r feddygfa ar ran pobl, neu'n
- un lle rydych chi'n derbyn presgripsiynau drwy'r post neu'n electronig, neu'n
- wasanaeth ar-lein y gall pobl ei gyrchu o wefan eich fferyllfa neu drwy ddilyn dolen ar wefan eich fferyllfa

Os oes ran neu rannau o'ch gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu mewn gwahanol leoliadau, dylech egluro'n glir i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol ymhle mae

pob rhan o'r gwasanaeth fferyllol. Dylech osgoi unrhyw wybodaeth a allai gamarwain defnyddwyr y gwasanaeth fferyllol ynghylch hunaniaeth neu leoliad y fferyllfa unrhyw wasanaeth presgripsiynu ar-lein.

Ymhob achos, dylech chi a'ch staff sicrhau bod pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau fferyllol yn rhoi caniatâd eglur i unrhyw wasanaeth fferyllol a ddarparwch ddefnyddio'r gwasanaethau presgripsiynu hyn **fel yr eglurir yng nghanllawiau cydsynio yr ICO**. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir yn gyfreithlon gan bresgripsiynydd na reoleiddir gan reoleidiwr iechyd proffesiynol yn y DU.

I gyrraedd ein safonau dan Egwyddor 4, rydyn ni'n disgwyl i chi, fel perchennog fferyllfa, sicrhau:

1. eich bod yn dryloyw gyda phobl sy'n defnyddio eich gwasanaethau fferyllol, fel eu bod yn:
 - eich bod yn gwybod pwy yw'r fferylllydd â chyfrifoldeb pan fo'u meddyginiaethau neu eu teclynnau meddygol yn cael eu cyflenwi
 - meddu ar ddigon o wybodaeth am y gwasanaeth i'w galluogi i wneud penderfyniad call, ac
 - yn gallu mynegi pryderon am ansawdd y gwasanaeth os oes angen
2. eich bod yn gallu dangos bod eich trefniadau gyda phresgripsiynwyr meddygol neu anfeddygol yn dryloyw, ac nad ydynt yn:
 - creu gwrthdaro mewn buddiannau, nac yn

- cyfyngu ar allu pobl i ddewis fferyllfa, nac yn
 - dylanwadu'r ormodol neu'n camarwain pobl sydd ag angen gwasanaethau arny'n nhw, drwy gamgymeriad na bwriad
3. eich bod yn darparu gwybodaeth ynghylch trefniadau rheoleiddio ac indemnio ar gyfer presgripsiynwyr nad ydyn nhw yn y DU, yn enwedig os nad oes rheoleiddiwr gweithwyr iechyd proffesiynol yn eu rheoleiddio

4.2 Rheoli meddyginiaethau'n ddiogel

Mae i werthu a chyflenwi meddyginiaethau o bell, gan gynnwys ar y rhyngwrdd, risgiau gwahanol i'r rhai sydd gan wasanaeth fferyllol 'traddodiadol'. Dylech gynnwys y rhain eich asesiad risg cychwynnol (gweler adran 1.1).

I gyrraedd ein safonau dan Egwyddor 4, rydyn ni'n disgwyl i chi, fel perchennog fferyllfa, sicrhau:

1. eich bod yn dangos y camau rydych chi wedi eu gweithredu i gadw'r risgiau at lefel mor isel â phosibl. Dylai hyn gynnwys sut rydych chi'n:
 - penderfynu pa feddyginiaethau sy'n addas eu cyflenwi o bell, gan gynnwys ar y rhyngwrdd
 - sicrhau bod eich staff yn gallu:
 - gwirio bod y bobl sy'n derbyn gwasanaethau fferyllol yn dweud y gwir am eu hunaniaeth, drwy wneud gwiriadau hunaniaeth priodol (er enghraifft, drwy gadw at **y Safon Gwirio a Dilysu**

Hunaniaeth ar gyfer

Gwasanaethau Iechyd a Gofal

Digidol, sy'n darparu dull cyson o wirio hunaniaeth ymhlith gwasanaethau iechyd a gofal arlein)

- cael pob gwybodaeth sydd ei hangen arnynt gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, er mwyn iddynt wirio bod y cyflenwad yn ddiogel ac yn briodol o ystyried, er enghraifft, eu hoed, rhyw, meddyginiaethau eraill a materion perthnasol eraill
- sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol yn cael cyfle i ofyn cwestiynau am eu meddyginiaethau
- sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol yn gwybod pwy i gysylltu â nhw os oes ganddynt gwestiynau neu os ydynt am drafod rhywbeth gyda staff y fferyllfa, ac
- adnabod ceisiadau amhriodol am feddyginiaethau, drwy allu adnabod archebion lluosog i'r un cyfeiriad neu archebion yn defnyddio'r un manylion talu – mae hyn yn cynnwys cyfuniadau amhriodol o feddyginiaethau ac archebion sy'n rhy fawr neu'n rhy aml

2. bod gwasanaeth presgripsiynu, neu presgripsiynydd, y dewiswch weithio gydag ef yn ymwybodol bod rhai categorïau o feddyginiaethau yn anaddas eu cyflenwi arlein oni bod mesurau diogelwch (gweler y manylion isod) ar

waith i sicrhau eu bod yn addas yn glinigol. Mae'r categorïau'n cynnwys:

- **Gwrthficrobalau (antibiotigau)**, pan fo'n bwysig rheoli'r defnydd arnynt yn effeithiol er mwyn helpu i leihau ymwrthedd i gyffuriau a sicrhau bod gwrthficrobalau yn parhau'n driniaeth effeithiol ar gyfer heintiau. Dim ond yn unol â chanllawiau arfer da y dylid cyflenwi'r rhain, gan ystyried canllawiau stiwardiaeth gwrthficrobalau perthnasol i'r person a'i leoliad
- **Meddyginiaethau y mae tuedd eu camddefnyddio neu eu gorddefnyddio, neu pan fo risg o fynd yn gaeth a monitro parhaus yn bwysig.** Er enghraifft: opiadau, lleddfollion, meddyginiaethau carthio, pregabalin, gabapentin
- **Meddyginiaethau sydd angen eu monitro neu eu rheoli'n barhaus.** Er enghraifft, meddyginiaethau gyda mynegai therapiwtig cul⁶, megis lithium a warfarin, ynghyd â meddyginiaethau a ddefnyddir i drin diabetes, asthma, epilepsi a chyflyrau iechyd meddwl. Enghraifft benodol o feddyginiaeth sydd angen ei monitro a'i rheoli'n barhaus yw sodium valproate, sy'n cael ei ddefnyddio i drin epilepsi ac anhwylder deubegwn ond sy'n cyflwyno risg uchel o

broblemau datblygu a chamffurfiadau i fabanod yn y groth

- **Cynnyrch meddyginiaethol cosmetig anfeddygol (megis Botox, Dysport neu Vistabel).** Yn unol â chanllawiau arfer da, dim ond ar ôl archwiliad ffisegol y dylid cyflenwi'r rhain ar bresgripsiwn

Mesurau diogelwch i'w rhoi ar waith os yw'r categorïau uchod o feddyginiaethau i'w cyflenwi ar-lein

1. Os ydych yn penderfynu gweithio gyda gwasanaeth presgripsiynau neu bresgripsiynydd ar-lein, ni ddylid cyflenwi'r categorïau uchod o feddyginiaethau oni bai bod y mesurau diogelwch canlynol wedi eu rhoi ar waith:
 - eich bod wedi'ch bodloni'ch hun bod gan y presgripsiynydd brosesau gwydn i wirio hunaniaeth y person i sicrhau bod y meddyginiaethau'n mynd i'r person cywir – er enghraifft, drwy wneud gwiriadau hunaniaeth priodol (er enghraifft, drwy gadw at **y Safon Gwirio a Dilysu Hunaniaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Digidol**, sy'n darparu dull cyson o wirio hunaniaeth ymhlith gwasanaethau iechyd a gofal ar-lein)
 - bod cais wedi ei wneud i'r person am fanylion cyswllt ei bresgripsiynydd arferol, megis ei Feddyg Teulu, ac am ei gydsyniad i gysylltu â nhw ynghylch y presgripsiwn
 - eich bod wedi'ch bodloni'ch hun y bydd y presgripsiynydd yn rhannu,

⁶ Mae cyffuriau â mynegai therapiwtig cul yn gyffuriau sydd â gwahaniaeth bach rhwng dosau therapiwtig a gwenwynig.

mewn ffordd ragweithiol, pob gwybodaeth berthnasol am y presgripsiwn gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sydd ynghlwm wrth ofal y person (ei Feddyg Teulu, er enghraifft)

- gyda meddyginiaethau sydd â thuedd i gael eu camddefnyddio neu eu gorddefnyddio, neu pan fo risg mynd yn gaeth a bod monitro parhaus yn bwysig, eich bod wedi'ch bodloni'ch hun bod y person wedi cysylltu â'i Feddyg Teulu cyn rhoi presgripsiwn a bod y Meddyg Teulu wedi cadarnhau wrth y presgripsiynydd bod y presgripsiwn yn briodol ar gyfer y person a bod monitro parhaus ar waith.
- os oes amgylchiadau lle nad oes gan y person bresgripsiynydd arferol megis Meddyg Teulu, neu os nad oes cydsyniad i rannu gwybodaeth, a'r presgripsiynydd wedi penderfynu ysgrifennu presgripsiwn beth bynnag, dylech eich bodloni'ch hun bod y presgripsiynydd wedi creu cofnod clir yn cyfiawnhau'r penderfyniad i ysgrifennu presgripsiwn
- bod y presgripsiynydd yn gweithio o fewn canllawiau presgripsiynu cenedlaethol a chanllawiau arfer da yn y DU. Byddai hyn yn cynnwys dilyn canllawiau perthnasol ar bresgripsiynu meddyginiaeth drwyddedig at ddefnydd didrwydded, a adwaenir fel defnydd "oddi ar label". Gweler 'Ffynonellau gwybodaeth

defnyddiol eraill' ar ddiwedd y ddogfen hon i gael rhagor o wybodaeth ar hyn.

4.3 Cyflenwi meddyginiaethau'n ddiogel

Rhaid i chi sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu dosbarthu'n ddiogel ac yn effeithiol. Dylech ystyried sut i wneud hyn yn rhan o'r asesiad risg cychwynnol (gweler adran 1.1).

I gyrraedd ein safonau dan Egwyddor 4, rydyn ni'n disgwyl i chi, fel perchennog fferyllfa, sicrhau:

1. eich bod yn dangos y camau rydych wedi eu gweithredu i reoli'r risgiau rydych chi wedi eu nodi. Dylai hyn gynnwys sut rydych chi'n:
 - asesu priodoldeb ac amserlen y dull cyflenwi, dosbarthu a darparu⁷ (ar gyfer meddyginiaethau sydd angen eu cadw'n oer, er enghraifft, neu gyffuriau a reolir)
 - asesu priodoldeb pecynnu (pecynnu na ellir ymyrryd â nhw, er enghraifft, a/neu y rheolir eu tymheredd)
 - tracio a monitro'r pecyn i sicrhau ei fod yn cyrraedd y person cywir, a

⁷ I gael rhagor o wybodaeth am gyflenwi meddyginiaethau, gweler Delivery and posting of medicines to patients (including abroad); Medicines, Ethics and Practice – The professional guide for pharmacists, y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Rhifyn 42, Gorffennaf 2018; neu gofynnwch am gyngor gan **Y Gymdeithas Fferyllol Genedlaethol** (NPA) neu eich darparwr yswiriant indemniad proffesiynol.

monitro unrhyw amharu ar y broses ddosbarthu

- gwirio telerau ac amodau'r cariwr, ac unrhyw gyfyngiadau sydd arno
- gwirio'r cyfreithiau sydd ar waith ar gyfer mewnfario neu allfudo meddyginiaethau os yw'r sawl sy'n eu derbyn y tu allan i'r DU
- hyfforddi'ch staff
- monitro darparwyr trydydd parti

4.4 Gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr fferyllfeydd

Pan na fo staff fferyllol yn gweld y person sy'n derbyn gofal wyneb-yn-wyneb, dylech ystyried sut gall staff gyfathrebu gwybodaeth bwysig iddo'n ddiogel ac yn effeithiol.

Rhaid i chi roi gwybodaeth eglur i bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaethau fferyllol ynghylch sut i gysylltu â staff eich fferyllfa os oes ganddynt broblemau neu os oes angen rhagor o gyngor arnyn nhw. Dylai hyn hefyd gynnwys cyngor ar pryd y dylent fynd yn ôl i'w Meddyg Teulu neu fferyllfa leol.

Egwyddor 5: Mae'r offer a'r cyfleusterau a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaethau fferyllol yn amddiffyn iechyd, diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd.

5.1 Offer a chyfleusterau arbenigol

Rhaid i chi sicrhau bod gan eich fferyllfa yr offer a'r cyfleusterau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau fferyllol, a'u bod yn addas at eu diben. Mae enghreifftiau o offer arbenigol yn cynnwys systemau dosbarthu awtomataidd, offer labelu a dyfeisiau symudol a ddefnyddir ar gyfer cael mynediad o bell.

I gyrraedd ein safonau dan Egwyddor 5, rydyn ni'n disgwyl i chi, fel perchennog fferyllfa, sicrhau:

1. bod eich offer:
 - o safon uchel, yn gywir ac yn ddiogel. Dylai eich offer TG ateb gofynion y manylebau diogelwch diweddaraf a dylid sicrhau diogelwch data pan fo'n symud o un lle i'r llall, drwy rwydweithiau diwifr a rhai wedi eu gwifrio, y tu fewn i'ch busnes a'r tu allan iddo. Dylech hefyd reoli mynediad at gofnodion a'r ffordd rydych chi'n storio, cadw a dileu cofnodion
 - yn cael ei galibreiddio, ei gynnal a'i wasanaethu'n rheolaidd yn unol â manylebau'r cynhyrhydd
2. bod eich meddalwedd a systemau gweithredu:
 - yn ddigon gwydn i ddelio gyda'r llwyth gwaith



- â systemau rheoli'n rhan annatod ohonynt er mwyn helpu rheoli risg
3. eich bod yn deall y feddalwedd a'r systemau gweithredu rydych chi'n eu defnyddio – er enghraifft, sut mae'r feddalwedd a'r system gweithredu'n gweithio, pa ddulliau rheoli sydd ar waith ynddynt ac a oes manau gwan
 4. eich bod yn cadw cofnodion cynnal a chadw mor hir ag y tybiwch yn briodol, ac y gallwch ddangos ei fod yn briodol
 5. bod eich cynlluniau parhad busnes yn cynnwys sut rydych chi'n rheoli risgiau o offer yn methu, gan gynnwys torri ar wasanaethau TG, a sut rydych chi'n sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn cael gwybod am unrhyw oedi yn, neu dorri ar draws, eu cyflenwad meddyginiaethau neu declynnau meddygol

Ffynonellau gwybodaeth defnyddiol eraill

- Alliance for Safe Online Pharmacies (ASOP Global)
<http://buysaferx.pharmacy/>
- Centre for Postgraduate Pharmacy Education (CPPE)
Sgiliau ymgynghori:
<https://www.cppe.ac.uk/gateway/consultfound>
- Care Quality Commission/Comisiwn Ansawdd Gofal
<https://www.cqc.org.uk/guidance-providers/online-primary-care>
Gofal sylfaenol ar-lein: gwybodaeth ar gyfer darparwyr:
<https://www.cqc.org.uk/guidance-providers/online-primary-care#care-standards>
- Community Pharmacy Scotland
<http://www.communitypharmacyscotland.org.uk/>
- Community Pharmacy Wales/Fferyllfa Gymunedol Cymru
<http://www.cpwales.org.uk/Home.aspx>
- Department for Business, Energy and Industrial Strategy/Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
<https://www.getsafeonline.org/shopping-banking/buying-medicines-online1/>
- <https://www.cyberaware.gov.uk/#!/protect-business/what-you-need-to-know>
- General Medical Council/Cyngor Meddygol Cyffredinol
Canllawiau moesegol ar gyfer meddygon
<https://www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-guidance-for-doctors#prescribing>
Rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr
<https://www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-guidance-for-doctors/prescribing-and-managing-medicines-and-devices/sharing-information-with-colleagues>
- Government.UK/ Llywodraeth y DU
Diogelu defnyddwyr
<https://www.gov.uk/government/policies/providing-better-information-and-protection-for-consumers>
- Information Commissioner's Office (ICO)/Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Gofal Iechyd a Chymdeithasol
<http://ico.org.uk/for-organisations/sector-guides/health>
- Medicines and Healthcare products Regulatory Agency/Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd



<https://www.gov.uk/government/organisations/medicines-and-healthcare-products-regulatory-agency>

Hysbysebu meddyginiaethau

<https://www.gov.uk/advertise-your-medicines>

Blue guide: Advertising and promoting medicines

<https://www.gov.uk/government/publications/blue-guide-advertising-and-promoting-medicines>

Register for the Distance Selling Logo

<https://www.gov.uk/guidance/register-for-the-eu-common-logo>

Cyfarwyddeb Meddyginiaethau wedi eu Ffugio: Gwerthu meddyginiaethau i'r cyhoedd o bell

http://ec.europa.eu/health/human-use/eu-logo/index_en.htm

Risgiau prynu meddyginiaethau ar y rhyngwrwyd

<https://www.nidirect.gov.uk/articles/risks-buying-medicines-over-internet>

Gwahardd Valproate heb y rhaglen atal beichiogrwydd

<https://www.gov.uk/government/news/valproate-banned-without-the-pregnancy-prevention-programme>

- NICE

Canllawiau NICE

www.nice.org.uk/guidance

- National Pharmacy Association (NPA)/Cymdeithas Fferyllol Genedlaethol

<http://www.npa.co.uk>

- NHS Digital (formerly Health and Social Care Information Centre)/NHS Digidol (Y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynt)

<https://digital.nhs.uk/>

- NHS England

<http://www.england.nhs.uk/>

- Pharmaceutical Services Negotiating Committee/ Pwyllgor Negodi'r Gwasanaethau Fferyllol

<http://psnc.org.uk/>

Fferyllfeydd gwerthu o bell

<http://psnc.org.uk/contract-it/market-entry-regulations/distance-selling-pharmacies/>

Gwasanaeth Presgripsiynu electronig

<http://psnc.org.uk/dispensing-supply/eps/>

- Royal Pharmaceutical Society/Cymdeithas Fferyllol Frenhinol

<http://www.rpharms.com>

Fframwaith galluedd presgripsiynu

<https://www.rpharms.com/resources/frameworks/prescribers-competency-framework>

- Veterinary Medicines Directorate/Cyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol

Gwerthwyr meddyginiaethau milfeddygol ar y rhyngwrwyd

<https://www.gov.uk/guidance/sell-veterinary-medicines-on-the-internet>



Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, London E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 [@TheGPHC](https://twitter.com/TheGPHC)
 [TheGPHC](https://www.facebook.com/TheGPHC)
 [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)
www.pharmacyregulation.org